SIARTER Y DG AR GYFER MARCHNADOEDD DIOGEL A THEG

EIN DELFRYD

Mae marchnadoedd yn rhan werthfawr o'n cymunedau ac yn cyfrannu'n fawr at ein ffyrdd o siopa.

Mae'r awdurdodau lleol, y gwasanaethau safonau masnach, y rhai sy'n trefnu marchnadoedd, cynrychiolwyr diwydiannau a pherchnogion hawlfreintiau a nodau masnach yn gweithio ar y cyd i ofalu bod marchnadoedd yn rhydd rhag nwyddau ffug ac anghyfreithlon fel y gall pawb brynu a gwerthu'n ddiogel ac yn hyderus.

Bydd modd dangos logo *Gwir Gynnyrch* lle mae'r sawl sy'n trefnu marchnad yn gweithio yn ôl telerau'r siarter a gofynion gwasanaeth safonau masnach y fro.

Trefniadau lleol fydd yn ategu agweddau ymarferol a gweithredol y siarter. Rydyn ni'n annog pawb sy'n trefnu marchnad a phob gwasanaeth safonau masnach i ystyried cyflwyno côd ymarfer sy'n adlewyrchu amgylchiadau lleol ac yn amlygu cymorth a dealltwriaeth. Bydd gwasanaeth safonau masnach yr ardal dan sylw a'r rhai sy'n trefnu marchnadoedd yno'n cytuno ar y côd, gan ei fonitro a'i adolygu fel y bo'n briodol.

Ymrwymiad trefnydd y farchnad

- Gweithio ar y cyd â swyddogion safonau masnach i rwystro pobl rhag gwerthu nwyddau ffug ac anghyfreithlon yn y farchnad.
- Gwybod pwy sy'n masnachu yn y farchnad.
- Ymrwymo i fasnachu'n deg a gofalu bod hynny'n hysbys i'r cyhoedd.

Ymrwymiad swyddogion safonau masnach

- Gweithio ar y cyd â threfnydd y farchnad i ofalu ei bod yn rhydd rhag nwyddau ffug ac anghyfreithlon.
- Rhoi gwybodaeth a chymorth ynglŷn â gwerthu nwyddau anghyfreithlon.
- Cydweithio â chynrychiolwyr diwydiannau a nodau masnach i nodi nwyddau anghyfreithlon.
- Cadw llygad ar y farchnad a rhoi gwybodaeth i'r heddlu, swyddogion safonau masnach neu asiantaethau gorfodi eraill yn ogystal â chynrychiolwyr diwydiannau a pherchnogion hawlfreintiau.

Ymrwymiad cynrychiolwyr diwydiannau a nodau masnach

- Rhoi gwybodaeth gyfoes yn rheolaidd i swyddogion safonau masnach a threfnydd y farchnad ynglŷn ag adnabod nwyddau anghyfreithlon.
- Rhoi hyfforddiant/cymorth i'r rhai sy'n gofyn amdano.
- Cadw llygad ar y farchnad a rhoi gwybod i bawb am unrhyw nwyddau amheus sy'n dod i'r amlwg.

Llofnod ar ran swyddogion safonau masnach	Dyddiad	Llofnod ar ran trefnydd y farchnad	Dyddiad
_____	_____	_____	_____

Sponsored by

Supported by

IPO is an operating name of the Patent Office

GWIR GYNNYRCH
Cydweithio yn erbyn nwyddau ffug

www.realdealmarkets.co.uk